



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**

**DCO Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru:  
Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN020015:  
Sylwadau Perthnasol Cyngor Sir Ynys Môn**

**27 Tachwedd 2018  
Wedi'i baratoi gan: Swyddfa Rheoli'r Rhaglen Ynys Ynni**

## Sylwadau Perthnasol

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Y cyflwyniad yma ydy Sylwadau Perthnasol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) mewn perthynas â'r cais gan National Grid Electricity Transmission plc (NGET) am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.
- 1.2 O dan adran 102(c) o Ddeddf Cynllunio 2008, mae CSYM yn barti sydd â diddordeb mewn perthynas â Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Dyma'r awdurdod lleol a fydd yn cynnal rhan fwyaf (mewn hyd) o'r datblygiad arfaethedig, a bydd cyfran o'r datblygiad yn y sir gyfagos sef Gwynedd. Dyma'r awdurdod a fydd hefyd yn gartref i orsaf bŵer niwclear newydd Wylfa Newydd y bydd prosiect arfaethedig Cysylltiad Gogledd Cymru yn allforio trydan ohoni. Mae CSYM yn Awdurdod Unedol ac felly mae'n gyfrifol (mewn cyd-destun datganoledig) am ystod eang o faterion gan gynnwys cynllunio, tai, priffyrdd, iechyd amgylcheddol a llesiant. Mae'n cynrychioli ac yn gwasanaethu'r cymunedau lle bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli, buddiannau cymunedau cyffiniol yn ogystal â'r amgylchedd ehangach, yr economi, iaith a diwylliant Ynys Môn drwyddi draw.
- 1.3 Mae'r Sylwadau Perthnasol hyn, yn unol â chanllawiau'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS), yn ceisio crynhoi'r agweddau hynny o'r datblygiad arfaethedig y mae CSYM yn cytuno â nhw neu'n anghytuno â nhw ac mae'n seiliedig ar y dogfennau DCO a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 5<sup>ed</sup> Medi 2018. Y materion y cyfeirir atyn nhw ydy ymateb cychwynnol CSYM ac mae CSYM yn cadw'r hawl i ychwanegu neu i ddiwygio'r sylwadau os oes angen. Bydd y materion a godir yn destun sylwadau ysgrifenedig manwl ac Adroddiad ar yr Effaith Leol a gyflwynir gan CSYM yn ystod y broses archwilio.
- 1.4 Mae CSYM wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â NGET o gamau cynnar y prosiect hyd at gyflwyno'r cais am DCO. Drwy gydol y cyfnod hwnnw, mae wedi bod yn gwerthuso ac yn asesu, i'r graddau oedd yn bosibl, effeithiau'r prosiect ar y cymunedau a fydd yn gartref iddo, gan gynnwys y rheini sydd agosaf at y llinell uwchben (OHL) arfaethedig yn ogystal â'r effeithiau ar draws yr ynys, fel y rheini y mae'r diwydiant twristiaeth yn debygol o'u teimlo er enghraifft. Mae'r Sylwadau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth honno ac ar sail polisi gadarn, a fydd hefyd yn cyfrannu at y safbwynt CSYM ar bob cam o'r broses archwilio.
- 1.5 Mae CSYM wedi cynnal safbwynt cyson, a gefnogir ar draws y sbectrwem gwleidyddol, ynghylch cynnig NGET ers yr ymgynghoriad Adran 42 cyntaf yn 2016, sef:-
  - Mae CSYM yn derbyn bod angen cysylltiad trydan newydd ar gyfer Wylfa Newydd.
  - Mae CSYM yn gwrthwynebu cynnig NGET am linell uwchben (OHL) oherwydd yr effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu ac oes ei weithrediad ar y dirwedd, ar lesiant cymunedau lleol ac oherwydd effeithiau'r cynnig ar dwristiaeth.
  - Mae CSYM felly yn gofyn am roi'r cysylltiad, yn ei gyfanrwydd, o Wylfa i'r Fenai o dan y ddaear.
- 1.6 Mae CSYM hefyd yn ailadrodd y pwynt a wnaeth yn ei sylwadau ynghylch Digonolrwydd yr Ymgynghoriad, sef er bod NGET wedi ymgynghori â thrigolion lleol ac aelodau etholedig yr

awdurdod, nid yw wedi ymgysylltu'n ystyrllon. Nid ydy'r dogfennau a gyflwynwyd gan NGET yn cynnwys bron dim cyfeiriad at y ffaith bod nifer yn y gymuned, yn ogystal â CSYM, yn gwrthwynebu OHL ychwanegol. Er bod cydnabyddiaeth fod trigolion lleol neu gymunedau efallai wedi mynegi'r dewisiadau a oedd yn cael eu ffafrio mewn perthynas ag ee micro-lleoli peilonau, mae dogfennau allweddol fel yr Adroddiad Dylunio, y Datganiad Cynllunio a'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn methu â chydabod mai'r dewis sy'n cael ei ffafrio gan CSYM, a nifer o'i gymunedau a'r unigolion yr effeithir arnyn nhw, fyddai gosod y llinell arfaethedig o dan y ddaear.

## 2. Y Cefndir

- 2.1 Mae Ynys Môn yn ynys sydd â thirwedd werthfawr iawn ac mae bron yr holl forlin yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hyn yn cyd-daro â darnau o Arfordir Treftadaeth yn ogystal â threftadaeth gyfoethog sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau a safleoedd treftadaeth ddiwylliannol dynodedig. Mae'r dirwedd hon, ynghyd â'r dreftadaeth ddiwylliannol, yn rhoi synnwyr o heddwch a llongyddwch a ategir ymhellach gan y gwahanu ffisegol oddi wrth y tir mawr. Mae Ynys Môn yn ynys y mae ei thir, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i hasedau naturiol wedi bod yn hollbwysig i gynnal ei chymunedau ers cenedlaethau lawer; maen nhw'n hanfodol i'w heconomi amaethyddol fywiog a hollbwysig ac maen nhw rŵan yn cefnogi sector twristiaeth sy'n dal i dyfu ac sydd yn gwbl ganolog i gynaliadwyedd economaidd yr ynys i'r dyfodol. Mae CSYM yn ceisio arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at y Sector Twristiaeth drwy ei Gynllun Rheoli Cyrchfan<sup>1</sup> sy'n adeiladu ar gymeriad unigryw Ynys Môn a'i naws arbennig iawn o le.
- 2.2 Mae'r iaith Gymraeg hefyd o bwysigrwydd allweddol ac mae'n edau aur, yn plethu hanes a threftadaeth gyda theimlad cryf o hunaniaeth, perthyn, cydlyniant cymunedol a llesiant. Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod oddeutu 57.2% o boblogaeth Ynys Môn yn siarad Cymraeg, sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd drwy Gymru (19%). Yn rhai o wardiau Ynys Môn, mae'r ffigur cyn uchod â 80.8%<sup>2</sup>.
- 2.3 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Ynys Môn wedi colli llawer iawn o swyddi medrus iawn a oedd yn talu yn dda ac mae ganddi gyfraddau diweithdra sy'n gyson uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cau Alwminiwm Môn yn 2009, gorffen cynhyrchu yn Wylfa (Magnox) yn 2015 a cholli grwpiau oed iau mewn ffordd anghymesur wedi gwaethygu problemau economaidd yr ynys yn ddifrifol. Ynys Môn sydd â'r ail GYC isaf y pen sef 75% yng Nghymru (sydd ei hun yn 73% o GYC y DU)<sup>3</sup>. Mae CSYM yn ceisio sicrhau na chaiff y sector twristiaeth hollbwysig ei ddifrodi gan adeiladu a gweithredu'r prosiect yma, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â gorsaf niwclear newydd arfaethedig Wylfa Newydd.
- 2.4 Y diwydiant twristiaeth ydy'r cyfrannwr mwyaf o lawer at economi Ynys Môn, gan ddarparu 4,102 o swyddi cyfwerth ag amser llawn a gan gyfrannu £304 miliwn y flwyddyn at ei

<sup>1</sup> Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2016 – 2020 <http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/b/j/f/Cynllun-Rheoli-Cyrchfan-Mon-2016---2020-low-res.pdf>

<sup>2</sup> Strategaeth Iaith Gymraeg CSYM 2016-2021 (tud11) <http://www.anglesey.gov.uk/download/54607>

<sup>3</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2015

<https://www.ons.gov.uk/economy/grossvalueaddedgva/bulletins/regionalgrossvalueaddedincomeapproach/latest>

heconomi<sup>4</sup>. Mae'r rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Ynys yn gwerthfawrogi ansawdd ac amrywiaeth ei hamgylchedd naturiol a hanesyddol, ei threftadaeth a'i diwylliant. Mae pobl yn gallu mwynhau'r heddwch a'r llonyddwch, y traethau a'r morlin a nifer o atyniadau allweddol eraill fel rhan o'u hymweliad. Mae dros 90% o'r ymwelwyr wedi ymweld â'r ynys o'r blaen ac mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan 2016-2020 yn cydnabod eu pwysigrwydd. Petai'r ymwelwyr hyn sy'n dychwelyd dro ar ôl tro yn dewis cyrchfan wahanol maen nhw'n annhebygol o ddychwelyd i Ynys Môn, o ganlyniad i hynny mae hi'n hollbwysig nad ydy Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru na Wylfa Newydd, naill ai'n unigol neu gyda'i gilydd, yn niweidio'r canfyddiad o Ynys Môn fel cyrchfan i ymwelwyr na realiti hynny.

- 2.5 Mae hi'n bwysig cydnabod bod dull gweithredu CSYM at gais DCO Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru (yn ogystal â'r un ar gyfer Wylfa Newydd), yn ystyried polisiau lleol ac yn dilyn deddfwriaeth Cymru. Yn benodol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac wrth ystyried ac ymateb i geisiadau am gydsyniad datblygu.
- 2.6 Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwybod bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn brif ddeddfwriaeth ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus eraill a enwir. At ddibenion yr Archwiliad yma bydd yn fater pwysig a pherthnasol yn eu hystyriaeth, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddo wneud ei benderfyniad. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn dylanwadu ar y dull gweithredu a ddefnyddir gan CSYM mewn perthynas â Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.
- 2.7 Mae nodweddion unigryw ac arbennig Ynys Môn, fel yr amlinellir uchod, ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u gwreiddio yng ngweledigaeth ac amcanion Cynllun Corfforaethol 2017-2022 CSYM<sup>5</sup> a'i Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2017 (Gwynedd a Môn)<sup>6</sup> sy'n ceisio creu:-
- “cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, eu treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw, ac yn llefydd y bydd pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld.”*
- 2.8 Roedd CSYM hefyd wedi mabwysiadu'n ffurfiol a defnyddio, yn ei asesiadau, Amcanion Llesiant a oedd wedi'u dynodi a'u blaenoriaethu drwy ymgysylltu â'r cyhoedd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wrth gynhyrchu ei Gynllun Llesiant 2018<sup>7</sup>. Ni ellir felly gorbwysleisio pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n ganolog i safbwyntiau CSYM ar Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.
- 2.9 Ochr yn ochr â'r effeithiau tymor byr a thymor hir ar lesiant (fel y nodir uchod), un elfen bwysig arall o asesiad CSYM o gynigion seilwaith mawr ydy'r Egwyddor Agosatrwydd (Atodiad A). Mae'r Egwyddor Agosatrwydd yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o effeithiau

<sup>4</sup> STEAM Crynodeb 2017. Cyngor Sir Ynys Môn

<sup>5</sup> Cyngor Sir Ynys Môn. Cynllun y Cyngor 2017 – 2022. <http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/a/a/q/Cynllun-2017---2022-29-11.pdf>

<sup>6</sup> Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn) 2017. <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-M%C3%B4n-Datganiad-Ysgrifenedig.pdf>

<sup>7</sup> <https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/Cynllun-Llesiant/>

unrhyw brosiect mawr fwyaf, ac felly'n cael eu teimlo'n fwyaf dwys, yn yr ardaloedd sydd yn union wrth ymyl y datblygiad. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, wrth i rywun symud ymhellach i fwrdd o'r datblygiad ni fydd yr effeithiau mor ddwys. Mae Prosiect arfaethedig Cysylltiad Gogledd Cymru yn golygu safle datblygu hir a llinol, a fydd yn effeithio ar ardal fawr a nifer sylweddol o gymunedau ar draws yr Ynys. O ganlyniad, bydd yr effeithiau llesiant parhaol ar dirwedd ac ar gymunedau yn helaeth. Yn y bôn mae'r Egwyddor Agosatrwydd yn cydnabod ac yn ymateb i'r ffaith y dylai'r cymunedau hynny sydd agosaf at y datblygiad ac a fydd yn gweld yr effaith fwyaf weld y crynodiad mwyaf o fesurau lliniaru, iawndal a manteision a ddarperir iddyn nhw ac o'u hamgylch er mwyn adlewyrchu lefel yr effaith a geir. Mae'r Egwyddor Agosatrwydd hefyd felly wedi arwain safbwyntiau CSYM ynghylch cais Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru am DCO fel y cafodd ei gyflwyno

### **3. Ymgynghoriad cyn ymgeisio**

- 3.1 Mae NGET wedi cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol fel rhan o'i gais am DCO ac mae CSYM wedi cymryd rhan yn y broses honno gydag ymatebion llawn, gan gynnwys yr ymateb Adran 42 a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyngor Llawn, fel y nodir yn ymateb Digonolrwydd yr Ymgynghoriad CSYM dyddiedig 21 Medi 2018<sup>8</sup>. Yn ei ymatebion i NGET, mae CSYM wedi datgan yn glir mai'r unig ddewis derbynol ar gyfer Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ydy ateb tanddaearol. Mae'r Cyngor yn dal i arddel y safbwynt hwn.
- 3.2 Fodd bynnag, mae CSYM hefyd wedi ymgysylltu â NGET a rhanddeiliaid eraill y tu allan i'r broses ymgynghori ffurfiol. Gan gydnabod bod angen a disgwyliad i awdurdod ymgysylltu â hyrwyddwyr a'i fod yn cymryd rhan yn y camau cyn ymgeisio ac archwilio, cynhaliwyd gweithdai i ddiffinio a hoelio sylw ar y materion y mae CSYM yn cytuno neu'n anghytuno â nhw. Mae'r materion a godir yn y Sylwadau Perthnasol hyn yn dilyn ymlaen o'r uchod. Maen nhw hefyd yn cynrychioli'r materion y mae CSYM wedi'u hamlygu i NGET yn gyson, drwy gydol trafodaethau ac ymgysylltu parhaus.

### **4. Gofynion DCO a mecanweithiau rheoli eraill**

- 4.1 Os rhoddir caniatâd datblygu i Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, bydd CSYM yn gyfrifol am fonitro a gorfodi nifer sylweddol o ofynion a osodir ar y datblygiad, yn ogystal ag unrhyw rwymedigaethau cynllunio. Mae'r rheolaethau hyn yn elfennau hanfodol o DCO Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru i sicrhau bod yr effeithiau, y mae rhai ohonynt yn cael sylw yn y Sylwadau hyn, yn cael eu trin, eu lliniaru, eu monitro a'u rheoli'n briodol. Mae CSYM o'r farn y dylai'r rheolaethau ar y datblygiad arfaethedig, a'r mecanweithiau i'w sicrhau, fod yn destun gwrandawiadau mater penodol i sicrhau yr ystyrir sefyllfa CSYM yn briodol, fel awdurdod gorfodi, yn rhwym wrth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 4.2 Bydd y DCO a'r dogfennau cysylltiedig gan gynnwys y cytundeb cynllunio adran 106 nad yw wedi cael ei ddrafftio eto yn hanfodol i sicrhau bod cynigion NGET a'r mesurau lliniaru cysylltiedig yn gadarn, yn ddigonol, o fewn cyrraedd ac yn sicrhau'r aliniad gorau posibl â

---

<sup>8</sup> <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN020015/EN020015-001051-NWCP%20-%20Isle%20of%20Anglesey%20County%20Council%20-%202021%20September%202018.pdf>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan CSYM rôl statudol gan gynnwys bod yn barti i, ac yn awdurdod gorfodi ar gyfer, unrhyw gytundeb rhwymedigaethau cynllunio (adran 106) fel y mae'n berthnasol i Ynys Môn. Mae'n disgwyl felly cael rôl arweiniol yn y gwaith o siapio gofynion y DCO, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu diwallu.

4.3 Mae CSYM wedi nodi nifer o faterion strategol allweddol sy'n codi o ddrafftio'r DCO a gyflwynwyd mewn perthynas â, er enghraifft: -

- (i) y diffiniad o "ddechrau", a sut mae hynny'n berthnasol i'r rheolaethau o dan y CEMP / cynlluniau amlinellol a'r cynlluniau manwl sydd i'w cymeradwyo o dan Ofyniad 7;
- (ii) cymeradwyo'r CEMP / cynlluniau amlinellol, a'r cynlluniau manwl sydd i'w cymeradwyo o dan Ofyniad 7;
- (iii) digonolrwydd yr wybodaeth sydd yn y CEMP / cynlluniau amlinellol.
- (iv) diffyg manylder wrth ddrafftio'r DCO ee y dull gweithredu a gymerir mewn perthynas â datgymhwyso deddfwriaeth leol a'r darpariaethau sy'n ymwneud â therfynau gwyro.

Eir ar drywydd y rhain, ac eraill, mewn sylwadau a wneir yn ystod camau diweddarach o'r broses.

## 5. Materion i'w hystyried yn yr Archwiliad

5.1 Fel yr amlygwyd yn adran 1.5, mae CSYM wedi arddel safbwynt cyson ar gynnig NGET, sef mai rhoi'r cysylltiad o dan y ddaear, o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd at y Fenai, ydy'r unig ddewis derbyniol.

5.2 Mae CSYM yn credu, dros y tymor hirach, bod cynllun gosod o dan y ddaear yn cyd-fynd yn well o lawer â'r amcanion llesiant a nodwyd oherwydd:-

- i) lliniaru'n llwyr yr effeithiau tymor hir ar y dirwedd a'r effeithiau canlyniadol ar dwristiaeth ac ar fusnesau;
- ii) y manteision a fydd yn deillio o fwy o gydlyniant cymunedol – parchu cymeriad unigryw, cyd-destun a naws o le'r Ynys yn well; a
- iii) cyd-fynd â'r dewisiadau sy'n cael eu ffafrio gan CSYM a'r gymuned.

O'r astudiaethau a gomisiynwyd gan y Cyngor Sir, mae CSYM yn fodlon bod dewis o'r fath, a fyddai'n golygu claddu'r ceblau'n uniongyrchol, yn ymarferol yn dechnegol.

5.3 Er gwaethaf safbwynt y Cyngor mai cysylltiad tanddaearol ydy'r unig ddewis derbyniol, mae CSYM yn cydnabod yr angen i awdurdod lleol ymateb i gais am DCO fel y mae wedi'i gyflwyno. Yn y cyd-destun hwn, caiff meysydd pwnc unigol eu hystyried isod. Er eu bod yn cael eu trin ar wahân, mae'r pynciau hyn, serch hynny, yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn cyfuno i gyfrannu at safbwynt cyffredinol CSYM yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 5.4 Tirwedd

- 5.4.1 Mae CSYM yn ystyried y bydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn cael effeithiau cymunedol lleol parhaol, annerbyniol mewn gwahanol rannau o'r Ynys, yn ogystal ag effaith annerbyniol ar gyd-destun rhai asedau treftadaeth fel meini hirion ac adeiladau rhestredig. Mae enghreifftiau'n cynnwys y meini hirion ym Maenaddwyn (Heneb Gofrestredig Rhif AN069) a'r maen i'r gogledd o Eglwys Llanfechell (AN 080) ac Eglwys St Michael (Adeilad Rhestredig Gradd II Rhif 5390).
- 5.4.2 Bydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn cael effeithiau tymor canolig a thymor hir annerbyniol gweddilliol sylweddol ar gymeriad yr ardaloedd tirwedd canlynol; Llain Lefn y Canol, Llain Lefn y Dwyrain, Cribau'r De Orllewin, Cefnwlad Bae Dulas, Dwyrain Canol Ynys Môn a Thiroedd Stad De Ynys Môn.
- 5.4.3 Bydd CSYM yn galw am fesurau lliniaru i leddfu'r effeithiau annerbyniol ar y dirwedd, gan gynnwys yr effeithiau ar Diroedd Stad De Ynys Môn, lle nid yw'r dirwedd "yn ymddangos yn wahanol o ran tirwedd i'r dirwedd warchoddedig cenedlaethol, sef yr AHNE"<sup>9</sup> lle na fyddai datblygiad yn cael ei ganiatáu fel rheol.
- 5.4.4 Mae CSYM yn gwrthwynebu'r coetir annerbyniol o isel y mae NGET yn cynnig ei blannu i wneud iawn am y 96 o goed a 6.81Ha o goetir a gollir. Yn benodol, mae CSYM yn gwrthwynebu'r gwaith mae NGET yn ei gynnig ar Dwmpath y Fonesig Silvia Crowe yn Wylfa sy'n mynd yn groes i gynigion Pŵer Niwclear Horizon ar gyfer mesurau lliniaru ecolegol a thirwedd. Mewn perthynas â phlannu, mae CSYM yn gofyn am wella'r sefyllfa gyfredol yn hytrach na'i gwneud yn waeth.
- 5.4.5 Gan fod y cynnig cyfredol yn caniatáu ar gyfer amrywio lleoliadau'r peilonau a'r llinellau mae angen canllawiau ymarfer gorau gan ddefnyddio gwybodaeth waelodlin o'r Adroddiad Gwrychoedd (Dogfen 5.9.2.5), ac Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth (Dogfen 5.30), er mwyn cyfrannu at weithredoedd ar y safle. Mae'r lefel hon o wybodaeth ar goll yn y strategaethau lliniaru.
- 5.4.6 Mae'r wybodaeth ofodol yn y Datganiad Amgylcheddol am dynnu llystyfiant, plannu newydd, a lliniaru ecolegol yn anghyson ac mae angen cyflwyno hyn fel cyfres symlach o luniau sy'n dangos:-
- i) cyflwr gaelodlin,
  - ii) y llystyfiant a fydd yn cael ei dynnu a'i gadw; a
  - iii) planhigion lliniaru a newydd.
- 5.4.7 Bydd CSYM yn galw am Strategaeth Plannu a Gwella Oddi ar y Safle (OSPES) gan NGET, ynghyd â chyllid am amser swyddog i fonitro yn ystod yr adeiladu a'r gweithredu i lliniaru'r effeithiau annerbyniol hyn. Dylai hyn fod yn gymesur ag OSPES y cytunir arnynt mewn tirweddau sensitif eraill.

---

<sup>9</sup>[https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-M%C3%B4n-\(DC.008\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-M%C3%B4n-(DC.008).pdf) tud 94

## **5.5 Traffig a Thrafnidiaeth**

- 5.5.1 Mae CSYM yn ystyried y bydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn cael effeithiau annerbyniol ar gyflwr a chapasiti y rhwydwaith priffyrdd ac ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Bydd CSYM yn mynnu rheolaethau traffig priodol, mesurau lliniaru a, lle bo angen, iawndal i liniaru'r effeithiau hyn.
- 5.5.2 Mae CSYM yn ystyried y bydd yr effeithiau ar briffyrdd oherwydd traffig adeiladu'r Prif Dŷ Twunnel, oherwydd sensitifrwydd pont reilffordd Lôn Pont Rhonwy a'r cynnig i gau Lôn Pont Rhonwy yn annerbyniol heb fesurau lliniaru priodol. Mae'r effeithiau a ragwelir yn cynnwys hollti rhai cymunedau gan gynnwys Llanfairpwll, oedi i yrwyr, beicwyr a cherddwyr ac effeithiau ar ddiogelwch ar y ffordd y tu allan i Ysgol Gynradd Llanfairpwll. Mae CSYM yn mynnu bod mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu darparu i liniaru'r effeithiau hyn.
- 5.5.3 O ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mae CSYM yn mynnu bod arolygon o'r cyflwr cyn cychwyn yn cael eu cynnal ar gyfer pob Hawl Tramwy Cyhoeddus ar bwyntiau croesi'r OHL ac ar gyfer pob Hawl Tramwy Cyhoeddus a ddefnyddir fel llwybrau mynediad NGET. Mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru mae cynnig NGET i "sicrhau bod y llwybr yn parhau i fod ar agor i bob pwrpas i ddefnyddwyr i'r graddau sy'n ymarferol" yn annerbyniol i CSYM. Dylai Llwybr Arfordir Cymru aros ar agor bob amser.
- 5.5.4 Mae CSYM yn gwrthwynebu'r diffyg cyfleusterau rhannu ceir a gynigir gan NGET ar y sail y gall hyn arwain at barcio ym mhob man ac mewn ffordd wrthgymdeithasol gan weithwyr adeiladu, yn enwedig yn agos at y prif safleoedd adeiladu (is-orsaf Wylfa, Llangefni a'r Prif Dŷ Twunnel). Mae CSYM yn credu y dylai NGET gyfrannu at gostau cyfleuster parcio a rhannu i liniaru'r effaith bosibl hon, petai'r sefyllfa hon yn codi, a dylai unrhyw gyfleuster o'r fath adael rhywbeth parhaol ar ôl i'r dyfodol.
- 5.5.5 Yn ogystal, mae'r CSYM yn ystyried bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag ystod o faterion fel diogelwch priffyrdd, rhagweld cychwyn teithiau, monitro a gorfodi a modelu cyffyrdd.

## **5.6 Twunnel y Fenai**

- 5.6.1 Mae CSYM yn cefnogi adeiladu'r twunnel gan mai dyma'r unig ffordd gall y cynllun osgoi effeithiau annerbyniol ar yr AHNE.
- 5.6.2 Nid ydy NGET wedi cadarnhau dull na chyfeiriad yr adeiladu, er caiff CSYM ar ddeall mai'r dull/cyfeiriad sy'n cael ei ffafrio ydy peiriant tyllu twneli (TBM) yn drilio tuag at Wynedd. Ystyrir bod yr effeithiau o ran traffig, iechyd yr amgylchedd a gwastraff yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Fodd bynnag, byddai CSYM yn gofyn am roi gofynion ar waith i fonitro'r effeithiau a chyfyngu ar yr oriau gweithredu (gan dderbyn os defnyddir TBM y byddai'n gweithredu 24 awr y dydd) er mwyn cyfyngu ar unrhyw niwsans annerbyniol i drigolion lleol yn yr ardal wledig dawel hon, gan gynnwys amseroedd dechrau a gorffen a danfon nwyddau neu symud rwbel. Os defnyddir drilio a ffrwydro 24 awr, byddai CSYM yn ceisio cyfyngu ar symudiadau cerbydau nwyddau trwm.



5.6.3 Ar hyn o bryd, nid ydy CSYM yn ystyried bod y dogfennau rheoli, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu amlinellol, yn darparu digon o fanylion er mwyn i CSYM allu bod yn siŵr bod modd cyfyngu ar y niwsans annerbyniol ac na fyddai diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei beryglu mewn modd annerbyniol.

## **5.7 Prif Dŷ Twannel**

5.7.1 Yn gyffredinol mae CSYM yn derbyn dyluniad arfaethedig y Prif Dŷ Twannel fel y nodir yn y Canllaw Dylunio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i CSYM gymeradwyo'r dyluniad terfynol, gan gynnwys y deunyddiau a'r tirweddu, i sicrhau bod yr ardal gyfagos yn cael ei diogelu'n briodol. Ar hyn o bryd nid ydy Gofyniad drafft 4 yn darparu'r lefel o reolaeth angenrheidiol ar gyfer yr ardal wledig, sensitif hon yn Ardal Tirwedd Arbennig Tir Stad y De, yn enwedig wrth ystyried yr estyniad i'r rhaglen adeiladu a gyflwynwyd yn flaenorol.

5.7.2 Bydd CSYM yn ceisio gosod cyfyngiadau ar ddanfôn nwyddau, parcio gweithwyr ac oriau gweithio ar gyfer y compownd adeiladu er mwyn diogelu amwynder preswylwyr lleol. Mae CSYM hefyd yn ystyried y bydd angen gofynion er mwyn lleihau effeithiau posibl o ran sŵn, dirgryniad, golau a llygredd aer ar dderbynyddion cyfagos ac ar gyd-destun gweledol Bryn Celli Ddu.

## **5.8 Iechyd yr Amgylchedd**

5.8.1 Oherwydd bod rhai cartrefi yn agos at y safleoedd adeiladu, mae CSYM yn credu bod yr oriau gweithio sydd wedi cael eu cynnig gan NGET yn afresymol a bydd yn ceisio cyfyngu arnyn nhw er mwyn cyd-fynd â'r rheini ar gyfer Wylfa Newydd i sicrhau cysondeb ar safleoedd adeiladu (y bydd rhai ohonyn nhw yn agos at ei gilydd), ac na fydd tarfu afresymol ar drigolion Ynys Môn ac ar ynys sydd â chymeriad tawel a heddychlon, lefelau sŵn cefndir isel iawn - sydd yn aml i lawr i'r "llawr sŵn" ar fesuryddion lefel sain.

5.8.2 Nid ydy NGET wedi cynnal unrhyw asesiad Sŵn Amledd Isel ar gyfer y Prif Dŷ Twannel, er gwaethaf ceisiadau gan CSYM iddo wneud hynny. Mae angen hyn er mwyn deall pa fesurau lliniaru sydd eu hangen.

5.8.3 Nid ydy'r bennod ar ansawdd yr aer yn sôn am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae dangosyddion cenedlaethol o ran ansawdd yr aer ar ffurf llygredd NO<sub>2</sub> yn yr aer yn bodoli a dylid eu defnyddio i fesur yr aliniad ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai NGET ddarparu rhagor o wybodaeth am yr effeithiau cronus gyda Wylfa Newydd. Nid ydy'r CEMP yn fanwl o ran ansawdd yr aer (mesurau rheoli llwch).

5.8.4 Mae CSYM yn nodi bod Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn bodoli ac yn credu ei fod yn berthnasol i Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith o adeiladu'r Prif Dŷ Twannel a'r twannel ei hun os defnyddir ffrwydro fel dull adeiladu (yn hytrach na pheiriant tyllu twneli). Dylai NGET geisio dangos ei fod yn cydymffurfio'n well â'r ystyriaethau polisi sydd wedi'u hamlinellu yn y Nodyn Cyngor Technegol hwnnw.

## **5.9 Treftadaeth Ddiwylliannol**

- 5.9.1 Bydd adeiladu a gweithredu Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn cael effaith niweidiol ar asedau treftadaeth hysbys ac anhysbys. Bydd yr OHL yn effeithio'n sylweddol ar asedau dynodedig drwy gyflwyno elfen newydd i'r dirwedd mewn rhai lleoliadau, neu drwy wneud gwifrau'n fwy dwys mewn ardaloedd eraill. Mae CSYM yn gwrthwynebu methiant NGET i ymrwymo i warchod asedau treftadaeth sydd ag arwyddocâd cenedlaethol a'u cyd-destun gweledol. Bydd CSYM yn mynnu cael mesurau lliniaru a bydd yn rhaid cael cyllid priodol pan fo angen er mwyn gwarchod henebion, gwella mynediad, digwyddiadau allgymorth a monitro.
- 5.9.2 Mae CSYM yn gwrthwynebu methodoleg NGET ar gyfer yr Astudiaeth Ddesg, a oedd yn wallus gan na cherddwyd dros yr adran o Geint i Afon Braint (oherwydd maint yr ardal yn ôl NGET). Ar ben hyn ac o ganlyniad i werthusiad ymwithiol cyfyngedig iawn (ffosydd prawf), mae angen mesurau lliniaru strided, map a sampl sylweddol. Bydd y nifer mawr o fesurau lliniaru yn gosod baich monitro ar CSYM (a'u cynghorwyr archaeolegol), ar ôl rhoi caniatâd, a bydd angen cyllid priodol er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar gyfer y gwaith yma. Mae CSYM yn nodi bod angen gwaith ar ôl cloddio hefyd er mwyn cwblhau'r adroddiad ar ffosydd prawf a bod yn rhaid i holl ganlyniadau'r gwaith archaeolegol gael eu gwreiddio'n iawn yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol.

## **5.10 Ecoleg**

- 5.10.1 Mae CSYM yn gwrthwynebu'r diffyg agwedd ragofalus sydd gan NGET o ran gwrthdrawiadau gydag adar. Mae gan CSYM bryderon sylweddol ynghylch y lefel isel o fesurau lliniaru sydd wedi cael eu cynnig sy'n annigonol i leddfu'r effeithiau a ragwelir. Mae NGET wedi cadarnhau y cynigir colli 18% o'r gorchudd coed yn Gylched gyda dim ond plannu lliniaru rhannol; byddai hyn yn arwain at golled annerbyniol ar gyfer ystumod sy'n clwydo ac adar bridio o safbwynt tirwedd. Mae CSYM hefyd yn gwrthwynebu digonolrwydd y mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig a'r diffyg monitro.

## **5.11 Twristiaeth**

- 5.11.1 Mae gan CSYM bryderon sylweddol y bydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn effeithio'n negyddol ar dwristiaeth. Rhaid i Ynys Môn aros 'ar agor i fusnes ar gyfer ymwelwyr', a rhaid i hynny a'r canfyddiad o hynny barhau yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r prosiect ac mae'n rhaid i Ynys Môn gadw ei synnwyr unigryw o le a chynnig unigryw i dwristiaid. Bydd unrhyw effaith niweidiol ar dwristiaeth oherwydd Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn hollol annerbyniol.
- 5.11.2 Rhaid cael cyllid ar gyfer ymgyrch farchnata sy'n galluogi CSYM i fod yn rhagweithiol gan ddarparu gwybodaeth fesul dipyn ynghylch gwytnwch ac amrywiaeth cynnig twristiaeth Ynys Môn. Bydd hyn yn caniatáu i CSYM achub y blaen ar unrhyw newid mewn canfyddiad oherwydd cyfnod adeiladu hir a set ychwanegol o beilonau. Mae CSYM hefyd yn mynnu cyllid gan NGET i fonitro nifer y gwelyau sydd ar gael, nifer yr ymwelwyr, gwariant ymwelwyr ac astudiaethau o ganfyddiadau twristiaid a fydd yn sicrhau bod CSYM yn gallu ymateb i unrhyw newidiadau a achosir gan Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

## 5.12 Effeithiau Economaidd Gymdeithasol

- 5.12.1 Nid ydy CSYM yn derbyn datganiad NGET ym Mhennod 17 y Datganiad Amgylcheddol nad oes angen unrhyw fesurau lliniaru mewn perthynas ag effeithiau economaidd gymdeithasol. Mae CSYM yn poeni ynghylch awgrym NGET y bydd carafanau a gweryslla yn darparu llety i'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn ystod y cyfnod prysuraf wedi'i ddilyn gan y sector rhent preifat (22%). Mae hyn yn mynd yn groes i dystiolaeth CSYM<sup>10</sup> sy'n dynodi mai'r math yma o lety fydd ar gael leiaf i weithwyr Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Caiff y pryder hwn ei waethygu gan y cyfnod adeiladu estynedig (o 64 mis i 75 mis), a gan brofiad blaenorol o adeiladu prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol eraill ledled y DU.
- 5.12.2 Mae CSYM yn gwrthod datganiad NGET yn llwyr fel y mae wedi'i nodi yn Natganiad Amgylcheddol Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru sef "nad yw yng nghylch gwaith NGET i 'gynyddu'r manteision economaidd gymdeithasol'"<sup>11</sup>. Mae Polisi PS 8 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn glir y bydd angen i unrhyw brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol gyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i gymunedau lleol, ymwelwyr a'r amgylchedd er mwyn iddo fod yn dderbyniol. Ac ystyried yr effeithiau niweidiol a fydd yn parhau drwy gydol cyfnodau adeiladu a gweithredu'r datblygiad, mae hi'n iawn ac yn briodol y dylai'r cymunedau sy'n gartref i'r datblygiad weld manteision economaidd gymdeithasol cadarnhaol yn sgil datblygiad mawr.

## 5.13 Yr Iaith Gymraeg

- 5.13.1 Mae'r Iaith Gymraeg yn 'Edau Aur' ac mae angen ymrwymiad i'w hystyried a'i diogelu drwy bob agwedd o'r prosiect. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg NGET yn cydnabod<sup>12</sup> y bydd effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes dim digon o ymrwymiad i ganfod mesurau lliniaru priodol. Mae CSYM yn ystyried gyda 447 o weithwyr yn ystod y cyfnod prysuraf, a dros 200 o weithwyr am gyfnod o 3 blynedd, mae'n debygol y bydd gweithwyr yn dod â'u teuluoedd gyda nhw i Ynys Môn. Mae CSYM yn credu y dylai NGET greu dogfen gyfatebol i Strategaeth Lliniaru'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ddrafft Pŵer Niwclear Horizon, a gafodd ei pharatoi fel rhan o waith paratoi DCO Wylfa Newydd, er mwyn lleihau effeithiau Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ar gymunedau lleol.
- 5.13.2 Mae CSYM yn nodi bod yr Asesiad o'r Effaith yn seiliedig ar dybiaethau i raddau helaeth, oherwydd diffyg gwybodaeth gwaelodlin. Mae CSYM felly wedi mabwysiadu'r "senario gwaethaf" ar gyfer lliniaru a fydd yn cael ei gynnal nes bydd NGET yn profi fel arall.

## 5.14 Mwynau a Gwastraff

- 5.14.1 Mae CSYM yn nodi o ran adfer, nad ydy NGET wedi cyfeirio o gwbl at y fethodoleg ar gyfer adfer, fel dadansoddi pridd, a'r effeithiau ar ecoleg. Nid ydy'r Datganiad Amgylcheddol chwaith yn cynnwys strategaethau ac opsiynau amgen. Ac ystyried pa mor agos ydy rhai

---

<sup>10</sup> Strategic Research and Insight Bedstock Survey (2018)

<sup>11</sup> Pennod 5.17 Datganiad Amgylcheddol Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru NGET

<sup>12</sup> Dogfen Datganiad Amgylcheddol NGET 6.2.31, tud 45

safleoedd sy'n ecolegol bwysig, dylid cywiro hyn. Er bod CSYM wedi codi'r mater ar y cam cyn cyflwyno, nid ydy NGET wedi asesu'r galw yn y farchnad ranbarthol bresennol nac wedi rhagweld y gofynion yn y dyfodol ar gyfer ailddefnyddio agregau nac wedi rhagweld y capasiti i drin gwastraff anadweithiol a safleoedd tirlenwi. Dylai'r rhagolygon hefyd gynnwys Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru a Phrosiect Wylfa Newydd – sydd yn perthyn i'w gilydd a dylid eu hystyried o dan senario gwaethaf.

- 5.14.2 Nid ydy NGET wedi darparu unrhyw amcangyfrifon o sgil-gynhyrchion gwastraff o safleoedd adeiladu (gan gynnwys y swyddfeydd lles), ac ni ystyriwyd y gwastraff trefol a gynhyrchir yn ystod oes y prosiect gan weithwyr a'u teuluoedd a sut y bydd y seilwaith rheoli gwastraff lleol yn ymdopi â hyn.

## 5.15 Casgliad

I gloi, mesurau lliniaru a, pan fydd angen, iawndal, ydy'r unig ffordd y mae CSYM yn credu y byddai modd hyd yn oed goresgyn yn rhannol nifer o'r materion a nodir ym mharagraffau 5.4 i 5.14 uchod. Pan fydd CSYM yn pennu bod hynny'n angenrheidiol (er enghraifft, lle sefydlir cyfyngiadau yng ngofynion y cynllun, neu mewn unrhyw Gynllun Rheoli), bydd angen mesurau lliniaru penodol yn ogystal â chyllid er mwyn i CSYM allu monitro, gweithredu a chymryd unrhyw gamau wrth gefn eraill y bydd eu hangen er mwyn ymateb i effeithiau annerbyniol.

## 6 Effeithiau rhwng prosiectau ac effeithiau cronus

- 6.1 Mae CSYM yn pryderu'n arw nad ydy NGET na Pŵer Niwclear Horizon wedi cynnal asesiadau digonol o'r effeithiau rhwng prosiectau. Fel y cydnabyddir uchod, mae Ynys Môn yn ynys gymharol fach gyda seilwaith leol gyfyngedig a gallu cyfyngedig i ymdopi â newid. Nid ydy goblygiadau'r effeithiau adeiladu a gweithredu cronus ar gyfer cymunedau lleol wedi cael eu hystyried yn iawn, yn enwedig y cymunedau o amgylch y prif safleoedd adeiladu yn Wylfa ac o amgylch y Prif Dŷ Twannel (gan gynnwys Llanfairpwll) o ran sŵn, dirgryndod, golau a llwch o'r traffig adeiladu a/neu'r gwaith adeiladu. Mae angen i'r effeithiau rhwng prosiectau gael eu hasesu'n iawn ac ystyrir bod hyn yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant trigolion lleol. Dylid hefyd cynnwys effeithiau rhwng prosiectau yn sgil y drydedd bont dros y Fenai gan Lywodraeth Cymru.
- 6.2 Un mater sydd eisoes wedi cael ei nodi gan CSYM (ac y cyfeirir ato yn 5.8.2 uchod), ydy'r cynigion sy'n mynd yn groes i'w gilydd gan Pŵer Niwclear Horizon a NGET mewn perthynas â Thwmpathau'r Fonesig Sylvia Crowe yn Wylfa, gan fod y ddau ymgeisydd wedi cynnig defnydd tir gwahanol ar eu cyfer.

## 7. Caffael Gorfodol

- 7.1 Mae CSYM yn gwrthwynebu'r pwerau caffael gorfodol a geisir gan NGET yn y DCO dros 2008 barseil o dir y mae gan CSYM ddiddordeb ynddynt fel yr amlinellwyd yn y Llyfr Cyfeirnod . Mae'r pwerau a geisir yn ormodol, ac mae'r ardaloedd o dir y ceisir y pwerau dros hefyd yn ormodol. Mae NGET yn ceisio caffael parseli o dir, trwy bwerau caffael gorfodol, nad ydynt

wedi bod yn destun ymgynghoriad statudol gyda CSYM cyn cyflwyno'r cais DCO. Yn sgîl ei wrthwynebiad i NWCP fel y cynigiwyd gan NGET oherwydd (ymhlith materion eraill), ei fethiant i gyd-fynd â nodau ac amcanion lles, nid yw'r Cyngor o'r farn bod achos cymhellol, er budd y cyhoedd, i ddefnydd o bwerau prynu gorfodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect fel yr hyrwyddwyd.

## **8. Materion Eraill**

- 8.1 Mae CSYM yn parhau i drafod y cynigion a'r gofynion â NGET a rhanddeiliaid eraill, ond fel yr amlygwyd yn y sylwadau hyn mae llawer o faterion a sylweddol a phwysig lle mae angen mwy o eglurder a manylion, er enghraifft, effeithiau cronus fel y nodir uchod.

# ATODIAD A

## Yr Egwyddor Agosatrwydd

### Cyflwyniad

1. Bydd y rhan fwyaf o effeithiau unrhyw brosiect mawr fwyaf, ac felly'n cael eu teimlo'n fwyaf dwys, yn yr ardaloedd sydd yn union wrth ymyl y safle datblygu. Mae hyn oherwydd crynodiad ac effaith gronnus effeithiau. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, wrth i rywun symud ymhellach i ffwrdd o'r safle, bydd yr effeithiau yn llai dwys. Wrth i'r effeithiau leihau, bydd yr angen am ddarparu iawndal neu fanteision cymunedol hefyd yn lleihau.
2. Yn y bôn, mae'r Egwyddor Agosatrwydd yn cydnabod ac yn ymateb i'r ffaith mai'r cymunedau sydd agosaf at y datblygiad a'r ardaloedd o'u hamgylch ddylai dderbyn y crynodiad mwyaf fesurau lliniaru, iawndal a manteision er mwyn adlewyrchu lefel yr effaith a wynebir.
3. Mae'r egwyddor yn darparu i fabwysiadu dull gweithredu dilyniannol a rhoddir ystyriaeth yn gyntaf i'r effeithiau manteisiol ar y cymunedau sy'n gartref i'r datblygiad a sut caiff y rhain eu cynyddu a sut caiff yr effeithiau niweidiol eu hosgoi, eu lliniaru neu dderbyn iawn amdanynt.

### Cymhwysio

4. Mae'r Egwyddor Agosatrwydd yn darparu y dylid cyfeirio ymyriadau, mesurau, gwaith lliniaru a manteision at ardaloedd daearyddol gan ystyried lefel yr effaith gyffredinol y byddan nhw'n ei hwynebu; dylid adlewyrchu lefel unrhyw effaith a ddisgwylir mewn cymuned yng nghyfran y manteision a ddarperir i'r gymuned honno. Ni ddylid felly creu cyfartaledd amhriodol o fanteision dros ardal ehangach a fyddai'n golygu na fyddai'r cymunedau y byddai'r effaith fwyaf arnyn nhw yn cael budd cymesur mewn perthynas â'r baich uwch a roddir arnyn nhw.

### Yn ymarferol

5. Bydd yr ardal sydd yn union wrth ymyl y safle yn wynebu effeithiau ffisegol y datblygiad, gan gynnwys y sŵn, y llwch a'r golau cysylltiedig a fydd yn mynd yn llai difrifol wrth fynd ymhellach i ffwrdd oddi wrth ffin y safle. Dylai mesurau i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn gael eu targedu at y cymunedau a fydd yn gartref i'r datblygiad. Bydd y gymuned a fydd yn gartref i'r datblygiad hefyd yn wynebu'r effeithiau a fydd yn cael eu teimlo yn yr ardal ehangach sy'n gallu, drwy eu cyfuno â'r effeithiau lleol, arwain at effeithiau cronus difrifol na fyddan nhw mor ddwys mewn llefydd eraill. Dylid ystyried yr effaith gronnus hon ar gymuned ar draws effeithiau amrywiol gwahanol a dylid caniatáu ar gyfer hynny wrth asesu'r effaith gyffredinol ar yr ardal honno. Gallai'r hyn a fyddai felly, mewn lleoliadau eraill, yn effaith niweidiol fach ar draffig arwain at effaith gronnus fwy o lawer ar gymuned sy'n gartref i ddatblygiad wrth ei hystyried gyda ffynonellau eraill o effaith fel y sŵn adeiladu a'r llwch gan gynyddu lefel y mesurau lliniaru sydd eu hangen.

- 6 Mae hi'n bwysig nodi nad bwriad yr egwyddor agosatrwydd ydy rhwystro mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau a deimlir y tu allan i Ogledd Ynys Môn. Er enghraifft, petai effeithiau traffig niweidiol sylweddol ar Bont Britannia mae'n debyg y byddai mesurau lliniaru ar gyfer y rheini yn cael eu cyfeirio at yr effaith honno ac y byddai cydweithio â Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i fynd i'r afael â hynny'n debygol o fod yn briodol. Nid oes dim byd yn yr egwyddor hon sy'n atal rhoi sylw i effeithiau mewn lleoliadau eraill nac sy'n mynnu bod cyfran o'r mesurau lliniaru'n cael eu cyfeirio at Ogledd Ynys Môn cyn unrhyw leoliad arall, yn hytrach, mae hyn yn galw ar edrych ar yr effeithiau gyda'i gilydd er mwyn canfod yr effaith gyffredinol ar leoliad nid yn unig effaith ar safle neu bwnc penodol.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

**Regulation & Economic Development**

**North Wales Connection Project DCO:**

**PINS Ref: EN020015**

**Isle of Anglesey County Council Relevant Representation**

**27 November 2018**

**Prepared by: Energy Island Programme Management Office**



## Relevant Representation

### 1. Introduction

- 1.2 This submission comprises the Isle of Anglesey County Council's (IACC) Relevant Representation in relation to the application by National Grid Electricity Transmission plc (NGET) for a Development Consent Order (DCO), for the North Wales Connection Project (NWCP).
